

Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

01 Hydref 2018

Annwyl Julie

Dadl ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog – 3 Hydref 2018

Yn dilyn ein trafodaeth anffurfiol ddiweddar ynghylch ein hadroddiad, rydym bellach wedi gweld yr adroddiad gan y Pwyllgor Busnes ynglŷn â'i benderfyniadau ar ddiwygio Rheolau Sefydlog i ystyried y gwaith o graffu ar reoliadau'r llywodraeth sy'n deillio o'r DU yn gadael yr UE.

O ganlyniad, mae un mater, y gwnaethom ei drafod yn gryno yn ein cyfarfod, yr oeddwn i am godi gyda chi cyn y ddadl ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 3 Hydref.

Yn eich ymateb i'n hadroddiad, fe wnaethoch dderbyn ein hargymhelliad 3. Nod yr argymhelliad hwn oedd adlewyrchu paragraff 3(7) o Atodlen 7 i *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*. Nid oedd modd dyblygu'r ddarpariaeth hon, sy'n berthnasol i Weinidogion y DU yn unig, ar gyfer Gweinidogion Cymru gan nad oedd amser i Lywodraeth y DU gael cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar ei gyfer (yn ogystal â rhai darpariaethau cysylltiedig eraill). Mae paragraff 3(7) o Atodlen 7 yn ei gwneud yn ofynnol, cyn i'r offeryn gael ei wneud, bod yn rhaid i'r Gweinidog wneud datganiad yn egluro pam bod y Gweinidog yn gwrthod argymhelliad y Pwyllgor.

Yn ein barn ni, mae'n bosibl na fydd y dull arall a awgrymwyd gennych i'r Pwyllgor Busnes yn cyflawni'r bwriad y tu ôl i'n hargymhelliad gwreiddiol. Y rheswm dros hynny yw ei fod yn ofynnol bod datganiad yn cael ei osod cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud. Mae gosod datganiad fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol yn annhebygol o fodloni'r gofyniad hwn gan fod Memorandwm Esboniadol yn cael ei osod *ar ôl* i'r rheoliadau gael eu gwneud. Rydym o'r farn



bod hwn yn fater sydd angen ei gadarnhau, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu esboniad ffurfiol o pam eich bod wedi derbyn ein hargymhelliad yn ein llythyr atom ar 13 Medi 2018 ond bod gennych agwedd wahanol yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor Busnes.

Byddwch yn deall bod y mater hwn yn cynnwys pwynt o egwyddor pwysig. Pe bai'r Pwyllgor yn argymhell dyrchafu cyfres o reoliadau o'r weithdrefn negyddol i'r weithdrefn gadarnhaol, yna o dan y Rheol Sefydlog arfaethedig, byddem ni (ac Aelodau eraill y Cynulliad) ond yn ymwybodol p'un a yw Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad ar ôl i'r rheoliadau gael eu llofnodi i mewn i gyfraith.

Cafodd y dull sifftio ei gynnwys yn Neddf 2018 fel ffordd o atal trosglwyddo gormod o bŵer o'r ddeddfwrfa i'r weithrediaeth. Yn ein barn ni, gallai dull Llywodraeth Cymru ddirymu diben y dull sifftio.

Rydym yn ymwybodol o'r ddadl na fyddai llawer o bwrpas gosod datganiad ar yr un diwrnod ag y caiff rheoliadau eu gwneud a'u gosod gyda Memorandwm Esboniadol.

Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi egluro pa mor hir y bydd yn ei gymryd i wneud y rheoliadau ar ôl sifftio. Byddai darparu datganiad (ar yr adeg y gofynnodd y Pwyllgor amdano'n wreiddiol) yn sicrhau nad oedd y Pwyllgor a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu gadael yn y tywyllwch pe byddai oedi wrth gyflwyno rheoliadau ar ôl iddynt gael eu sifftio.

Yn ogystal, nid yw'n ymddangos yn arbennig o feichus i ni lunio datganiad byr yn dyblygu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru bellach yn bwriadu ei gynnwys yn ei Memorandwm Esboniadol.

Yn ein barn ni, ni ddylai manteision prosesau ymarferol fod ar draul priodoldeb cyfansoddiadol ac ymarfer da.

Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, mae'r broses seneddol a'r ymddiriedaeth yn y broses honno, yn rhan hanfodol o'n democratiaeth, a dyna pam ein bod yn codi'r materion hyn.

Y dull yr ydym yn bwriadu ei gymryd yw parhau i gadw golwg ar y Rheolau Sefydlog diwygiedig (yn amodol ar y newidiadau y cytunir arnynt yn y Cyfarfod Llawn), a gallem awgrymu newidiadau yn y dyfodol os ydym o'r farn bod hynny'n briodol.



Anfonir copïau o'r llythyr hwn at y Llywydd a'r Rheolwyr Busnes.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

